Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Maesywaen
# Neuadd Maes Y Waen
# Rhyduchaf
# Y Bala
# LL23 7SF

## Dyddiad yr arolygiad:  Ionawr 2020

## gan

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## a

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Maesywaen

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Maesywaen |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal ddydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Angharad Pritchard |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Angharad Pritchard |
| Nifer y lleoedd | 25 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 3 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Mawrth i Ddydd Gwener rhwng 9.00 ac 11.30 y bore |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 19 Ionawr 2017 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ebrill 2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 14 a 15 Ionawr 2020 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Mae bron pob un plentyn yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd.<br>Mae'r ymarferwyr yn clirio popeth ar ddiwedd y sesiwn oherwydd defnyddir yr ystafell gan grwpiau eraill yn y gymuned | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **dd/p** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Cryfhau'r trefniadau ar gyfer cyfleoedd i'r ymarferwyr drafod arsylwadau er mwyn chwarae rhan mwy blaenllaw wrth asesu cyraeddiadau plant.

A2 Cofnodi trafodaethau goruchwylio yn ystod y flwyddyn fel bod tystiolaeth ysgrifenedig ffurfiol o reoli staff yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau deallus am eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, maent yn dewis beth a gyda phwy yr hoffent chwarae ac yn penderfynu ble i eistedd amser snac. Teimla'r plant yn hyderus nad oes rhaid iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau nad ydynt yn hapus i wneud lle'n briodol. Er enghraifft, mae dymuniad y plant yn cael ei barchu'n briodol pan maent yn dewis arsylwi yn hytrach nag ymuno â sesiwn dawnsio a chanu.

Mae bron pob plentyn yn teimlo'n ddiogel, hapus ac yn ffyddiog y bydd eu teimladau yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd y lleoliad yn eiddgar ac yn ymdopi'n dda iawn wrth wahanu oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r ymarferwyr ac mae'r ychydig sydd yn ansicr, yn mwynhau cael eu cysuro cyn mynd i chwarae. Mae bron pob plentyn yn datblygu hoffter tuag at ymarferwyr yn hawdd oherwydd mae'r ymarferwyr yn eu hadnabod yn dda ac mae'r plant yn derbyn gofal cyson a pharhaus. Er enghraifft, mae ychydig iawn o blant yn dewis aros yn agos i ymarferwyr cyfarwydd.

Mae bron pob plentyn yn cydweithredu ac yn chwarae'n effeithiol gyda'u cyfoedion, er enghraifft wrth rannu'r potiau paent a ffyn glud. Maent yn gwrando yn astud ac yn dilyn trefn y lleoliad yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw pan maent yn clywed sŵn y drwm maent yn symud o'u chwarae yn syth i'r dasg nesaf. Mae rhan fwyaf o'r plant yn gwrtais a llawer yn dweud 'plîs' a 'diolch' heb gael eu hannog.

Mae bron pob plentyn yn dangos brwdfrydedd mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae ac yn dangos chwilfrydedd. Er enghraifft, maent yn llawn cyffro yn trafod sut y mae'r iâ yn toddi a sut mae'n teimlo. Mae llawer yn rhedeg yn gyffrous i fynd i chwarae tu allan ac yn rasio ei gilydd ar y beics a'r sgwteri yn llawn bwrlwm. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dyfalbarhau am gyfnod priodol i gwblhau gweithgareddau fel torri siapau papur gyda siswrn.

Mae bron pob plentyn yn datblygu sgiliau sy'n briodol ar gyfer eu hoedran gyda llawer yn cyfri hyd at 10 yn hyderus ac yn adnabod rhifau, lliwiau a siapau yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu sgiliau corfforol cadarn gan ddefnyddio pibedau a gefeiliau i ddal iâ a phensiliau i farcio yn effeithiol. Gall y rhan fwyaf o'r plant neidio yn hyderus oddi ar y llwyfan isel gydag ychydig o'r plant ieuengaf yn dewis eistedd cyn camu lawr.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn awyddus iawn i fod yn annibynnol ac yn mwynhau helpu paratoi a chlirio snac. Mae 'helpwr y dydd' yn dosbarthu llestri a snac i bawb ac mae'r plant yn arllwys eu llaeth heb gymorth yn llwyddiannus. Mae bron pob un plentyn yn golchi a sychu dwylo yn annibynnol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Barn**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydydnt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad:  Da**

Mae'r ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch ac iechyd y plant, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u polisi amddiffyn plant.  Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ymarferwyr yn darparu bwydydd a diodydd iach a maethlon i'r plant, a chynigir amrywiaeth da o ffrwythau yn ddyddiol.  Mae dŵr ffres ar gael yn ystod y sesiwn a photeli pawb wedi eu labelu ac yn cael eu cadw yn briodol yn yr orsaf ddŵr.  Mae ymarferwyr yn atgyfnerthu pwysigrwydd iechyd y geg yn llwyddiannus drwy annog y plant i frwsio eu dannedd yn ddyddiol. Mae rhestr wirio dyddiol yn cal eu cwblhau gan yr ymarferwyr sydd yn sicrhau diogelwch y plant yn y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol i reoli rhyngweithiadau mewn ffordd bositif a thawel.  Maent yn siarad yn ofalgar ac yn defnyddio canmoliaeth yn effeithiol i annog y plant i gydymffurfio.  Er enghraifft, pan oedd plentyn wedi eistedd ar gadair plentyn arall, gofynodd ymarferwr yn garedig iddo symud a chafodd ganmoliaeth uchel am wrando ac ymateb yn syth. Mae ymarferwyr wedi meistroli system effeithiol iawn o gael sylw y plant heb godi llais.  Maent yn gwneud hyn drwy fwrw'r drwm sy'n golygu ei bod yn amser symud i'r dasg nesaf.  Mae ymarferwyr yn frwdfrydig tu hwnt wrth ddarllen stori, yn addasu eu lleisiau ar gyfer gwahanol gymeriadau sydd yn cadw sylw a diddordeb llwyr y plant trwy gydol y stori yn dda iawn.   Mae'r ymarferwyr yn darparu gofal ymatebol, annwyl sy'n meithrin y plant i ddysgu a datblygu'n dda. Mae gan yr ymarferwyr berthynas hyfryd gyda'r plant ac maent yn sensitif i'w hanghenion.  Maent yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion, eu galluoedd a'u hoffterau unigol.  Er enghraifft, maent yn egluro ymddygiad anarferol plentyn yn ddeallus. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo sgiliau meddyliol y plant yn gyson dda drwy ofyn cwestiynau pen agored.

Mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos iawn gydag asiantaethau allweddol a rhieni i hyrwyddo lles y plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau gwerthfawr sydd yn darparu profiadau diddorol a chyffrous ac yn datblygu medrau'r plant ar draws ardaloedd dysgu y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus.  Maent yn cynnwys llais y plentyn yn effeithiol yn y cynllunio sy'n ennyn diddordeb pwerus y plant yn y gweithgareddau.  Mae hyn yn galluogi y rhan fwyaf o blant i ddyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig. Mae cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau o dan gyfarwyddyd oedolyn a gweithgareddau y mae'r plant yn dewis eu hunain.  Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn bwrpasol yn y chwarae, er enghraifft wrth holi'r plant yn agored ac yn annog trafodaeth er mwyn symud y dysgu ymlaen.  Mae'r ymarferwyr yn darparu tasgau i herio'r plant hŷn yn effeithiol ac mae hyn yn cael effaith buddiol ar gyrhaeddiadau.

Mae'r gweithgareddau dyddiol yn darparu cyfleoedd cadarn i ddatblygu medrau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) y plant.   Er enghraifft, mae amrywiaeth o gyfleoedd ymarferol i'r plant i adnabod, enwi a chyfri rhifau i 10 ac i reoli llygoden y gliniadur yn fedrus.  Mae gan yr ymarferwyr

berthynas waith gartrefol gyda'r plant. Maent yn deall anghenion y plant yn dda ac yn rheoli ymddygiad yn sensitif. O ganlyniad, mae llawer o'r plant yn ymddwyn yn dda, yn rannu adnoddau ac yn cyd-chwarae'n llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith yn gryf sy'n galluogi bron pob un plentyn i gyfathrebu yn hyderus yn y Gymraeg. Er enghraifft, yn ystod amser cylch, mae ymarferwyr yn cynnal trafodaethau pwrpasol gyda'r plant am eu teuluoedd a'u trefniadau dyddiol.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd cyson i ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod leol yn flynyddol ac yn dathlu Gŵyl Ddewi wrth i'r ymarferwyr goginio cawl llysiau gyda'r plant.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn datblygu'n dda. Er enghraifft, yn yr ardal tu allan maent yn tyfu tatws a mefus, ac yn paratoi cawl gyda'r llysiau, ac yn bwyta'r mefus yn ystod amser byrbryd. Mae'r plant yn derbyn cyfleoedd buddiol i godi eu hymwybyddiaeth diwylliannol, er enghraifft wrth ddathlu y flwyddyn newydd Tsieineaidd drwy goginio a cheisio bwyta nwdls gyda gwyllbrennau. Maent yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau i'r plant deimlo'n rhan o'u cymuned ac iddynt werthfawrogi byd natur o'u cwmpas. Er enghraifft, maent yn trafod Mynydd Arenig wrth fynd am dro i'r parc lleol ac ymweld â Llyn Tegid.

Mae gweithdrefnau asesu'r lleoliad yn datblygu'n effeithiol. Mae'r arweinydd yn defnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn ddefnyddiol i asesu ac olrhain cynnydd plant o'u mannau cychwyn. Mae'r arweinydd gyda mewnbwn llafar yr ymarferwyr yn trafod cynnydd y plant yn rheolaidd a defnyddir y wybodaeth yn addas i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob tro yn chwarae rôl digon trylwyr wrth asesu cyrhaeddiadau plant.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a bod pob ymarferwr yn gwbl ymwybodol o weithdrefnau iechyd a diogelwch y lleoliad. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith gan gynnwys asesiadau risg ysgrifenedig manwl a gwiriadau dyddiol sy'n sicrhau bod peryglon posibl yn cael eu lleihau neu eu dileu. Mae'r rhain yn cynnwys yr ardal tu allan ac asesiadau risg o deithiau. Caiff mynediad i'r lleoliad ei reoli'n dda gan gan fod yr arweinwyr yn sicrhau bod y brif fynedfa ar glo a bod manylion pob ymwelydd yn cael eu cofnodi. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant i'w galluogi i ddysgu trwy fentro'n briodol, er enghraifft wrth iddynt neidio oddi ar y llwyfan.

Mae digon o le yn yr adeilad i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae'r ardaloedd dysgu wedi eu trefnu yn feddylgar i ddarparu cyfleoedd da i ddysgu trwy chwarae. Mae syniadau creadigol y plant yn cael eu harddangos yn llwyddiannus, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu apelgar i'r plant yn ddyddiol yn fedrus iawn.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau sydd ar gael i'r plant yn briodol iawn ac yn addas i'w hanghenion. Ceir amrywiaeth dda o adnoddau ymhob ardal chwarae sydd o fewn cyrraedd rhwydd y plant. Mae hyn yn datblygu annibyniaeth y plant yn effeithiol wrth iddynt estyn a chadw adnoddau.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau yn lân ac yn cael eu cynnal a chadw yn ôl gofynion rheoli haint. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod teganau a deunyddiau chwarae ar gael i hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn dda, gan gynnwys diwylliant a threftadaeth Cymru.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir a chadarn ar gyfer y lleoliad yn seiliedig ar ddarparu gofal ac addysg o’r safon uchaf ymhob agwedd o’i gwaith. Mae’n rhannu’r weledigaeth hon yn effeithiol ac, o ganlyniad, mae cydweithio pwrpasol ymysg yr ymarferwyr. Mae pawb yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau ac yn cyd weithio fel tim llwyddiannus. O ganlyniad, mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn darparu profiadau gwerthfawr i’r plant yn eu gofal. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn gynhwysfawr ac yn rhoi darlun cywir o’r hyn y mae’r lleoliad yn ei ddarparu.

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda iawn. Maent yn cydweithio’n effeithiol gydag athrawes yr awdurdod lleol, swyddog Mudiad Meithrin ac yn derbyn mewnbwn gan y rhieni a’r plant i arfarnu gwaith y lleoliad yn bwrpasol.

Mae’r pwyllgor rheoli yn gefnogol i’r lleoliad, maent yn cwrdd yn rheolaidd ac yn chwarae rhan weithredol ym mywyd a gwaith y lleoliad. Maent yn rheoli cyllid y lleoliad yn effeithiol trwy sicrhau bod cyllid ar gael i brynu cyfarpar sydd angen i wella’r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae’r arweinwyr yn cydymffurfio gyda’r rheoliadau a’r safonau gofynol cenedlaethol, ond nid ydynt yn cofnodi trafodaethau goruchwylio achlusorol staff yn ffurfiol. O ganlyniad, nid oes tystiolaeth ffurfiol bod hyn yn digwydd yn rheolaidd. Mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle i apwyntio staff addas ac i’w cefnogi. Mae gwaith pob ymarferwr yn cael ei arfarnu yn flynyddol a’u perfformiad a’u anghenion o ran datblygiad proffesiynol parhaus yn cael ei gofnodi’n ar ffurfflen arfarnu staff. Mae’r prosesau hyn yn cynorthwyo ac yn herio pawb i wneud eu gorau i ddysgu ac er lles y plant.

Mae gan yr ymarferwyr berthynas werthfawr gyda’r rhieni. Maent yn cyfathrebu’n effeithiol drwy ystod o gyfryngau ac yn trafod yn ddyddiol gyda’r rieni wrth iddynt ollwng a chasglu eu plant yn y lleoliad. Mae’r arweinydd yn trafod adroddiad ar gynnydd bob plentyn gyda’r rhiant mewn cyfarfod unigol yn nhymor yr Haf ac yn rhannu llyfr darlunio a ffotograffau sy’n gofnod o waith y plentyn yn y lleoliad.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/03/2020